| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | **Pwyllgor Craffu Gofal** |
| **Dyddiad** | **03/02/2022** |
| **Teitl** | **Adroddiad yn rhoi diweddariad ar Wasanaeth Therapi Galwedigaethol (ThG), Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd.** |
| **Awdur** | **Matthew Hawes, Arweinydd Therapi Galwedigaethol** |
| **Aelod** | **Dafydd Meurig, Aelod Cabinet, Oedolion, Iechyd a Llesiant** |

**1. Pwrpas yr adroddiad.**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddariad yn dilyn yr adroddiad 14 Ionawr 2021, ar gyfraniad parhaus y Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol yn Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Gwynedd.

**2. Cyflwyniad**

2.1 Pwrpas y Timau Adnoddau Cymunedol yw "Helpwch fi i fyw fy mywyd fel yr hoffwn fyw". Mae gan Therapi Galwedigaethol rôl bwysig iawn i helpu trigolion Gwynedd i gyflawni eu deilliannau personol drwy hyrwyddo annibyniaeth.

**3. Datblygiadau yn y Gwasanaeth.**

3.1 Yn yr adroddiad ym mis Ionawr 2021 trafodwyd y weledigaeth i greu swyddi aseswyr symud a thrin yn y Timau Adnoddau Cymunedol i alluogi unigolyn dynodedig i ganolbwyntio ar elfennau gofal Sengl a Symud a Thrin Diogel.

3.2 Roedd cais yr Adran am arian ychwanegol yn llwyddiannus. Mae hyn wedi galluogi'r Gwasanaeth i sefydlu 'Tîm Symud a Thrin' a phenodi pump Asesydd Symud a Thrin i fod yn rhan o'r Timau Adnoddau Cymunedol. Cafwyd peth oedi wrth recriwtio i'r swyddi hyn, ond rydym yn falch iawn o fedru cyhoeddi bod yr holl swyddi bellach wedi eu llenwi.

3.3 Mae'r tîm yn cynnwys pedwar Therapydd Galwedigaethol ac un Nyrs Gofrestredig. Mae hyn yn ddull cymharol newydd a gwahanol o ddarparu cefnogaeth. Mae'n bwysig cael yr amrywiaeth gywir o ran sgiliau yn y tîm i sicrhau dull holistig aml-ddisgyblaethol o asesu gan uchafu effaith y canlyniadau i'r unigolyn.

3.4 Y camau nesaf i'r Tîm Symud a Thrin yw cynnal hyfforddiant arbenigol i wella gwybodaeth a chymwysterau y swyddogion i gyflawni. Mae'r tîm eisoes wedi dechrau gwneud gwelliannau sylweddol i fywydau trigolion Gwynedd o ran defnyddio'r dull gofal

sengl a chyd weithio gyda theuluoedd a staff gofal i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel gyda rhai o'r achosion mwy cymhleth.

3.5 Bydd y tîm yn datblygu mesurau ac astudiaethau achos i werthuso eu heffaith ar fywydau unigolion a'u teuluoedd.

3.6 Yn y gorffennol, mae recriwtio Therapyddion Galwedigaethol i weithio gyda Chyngor Gwynedd wedi bod yn heriol. Ers yr adroddiad diwethaf, gwnaed nifer o welliannau allweddol o ran recriwtio staff. Roedd rhai o'r ymgeiswyr llwyddiannus i'r swyddi Symud a Thrin eisoes yn gyflogedig fel Therapyddion Galwedigaethol yn yr Adran. Rydym wedi llwyddo i recriwtio i ôl-lenwi'r swyddi hyn.

3.7 Llwyddodd y Cyngor i benodi Therapydd Galwedigaethol ar gytundeb tymor byr i'r Gwasanaeth Anabledd Dysgu i ôl-lenwi secondiad y therapydd presennol i swydd uwch. Rydym hefyd wedi penodi Therapydd Galwedigaethol rhan-amser i gefnogi'r Gwasanaeth Cefnogi Plant a Theuluoedd.

3.8 Mae'r Adran wedi llwyddo i sicrhau arian ychwanegol i ariannu dau hyfforddai Therapi Galwedigaethol sydd yn cwblhau Cwrs Gradd Therapi Galwedigaethol ym Mhrifysgol Glyndŵr. Mae hyn yn ychwanegol at yr hyfforddai presennol sy'n dod i ddiwedd ei chwrs. Rydym wedi recriwtio un hyfforddai sydd yn aelod mewnol o staff i gwblhau'r cwrs gradd rhan-amser ac un hyfforddai i gwblhau'r cwrs prifysgol llawn amser.

3.9 Er bod y Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol wedi ei staffio yn llawn ar hyn o bryd; bu bylchau yn y Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf am sawl rheswm gan gynnwys, salwch staff, cyfnod mamolaeth, bylchau rhwng amser penodi staff i rôl newydd a phenodi i ôl-lenwi'r swyddi hyn. Yn ychwanegol, bu cynnydd yn y galw am y Gwasanaeth. Mae'r cynnydd mwyaf wedi bod ar gyfer unigolion efo anghenion Symud a Thrin cymhleth ac unigolion sydd angen cefnogaeth i adfer neu gynnal sgiliau byw yn annibynnol.

3.10 O ganlyniad i'r uchod, mae angen i'r Gwasanaeth flaenoriaethu ceisiadau am asesiadau yn dibynnu ar anghenion a risgiau. Mae rhestrau aros yn dal i fodoli ar gyfer asesiadau mewn rhai ardaloedd ac rydym yn gweithio'n galed i leihau rhain. Oherwydd y galw uchel am asesiadau bathio, yn ystod yr wythnosau diwethaf rydym wedi dechrau peilota cynllun gan gydweithio gyda Gofal a Thrwsio i hwyluso fframwaith asesydd dibynadwy lefel 4 i helpu gyda rhai o'r rhestrau aros hirdymor am asesiad bathio. Mae hyn yn ychwanegol i gefnogi rhai o'n goruchwylwyr gofal cartref i ymgymryd â hyfforddiant i asesu ac archebu Offer lefel isel.

## 4. Y Galw am Offer / Darpariaeth Offer Arbenigol

4.1 Oherwydd bod pobl bellach yn byw yn hirach adref gydag anghenion mwy cymhleth mae'r galw am offer, ac yn benodol eitemau offer arbenigol, i'w galluogi i aros yn ddiogel adref gyda Chymorth gan deulu neu staff gofal yn parhau i dyfu. Heb y ddarpariaeth yma byddai gofal yn peidio a byddai pobl yn gorfod mynd i'r ysbyty neu gael gofal hirdymor. Mae'n bwysig bod yr arian ar gyfer hyn yn parhau i gyd-fynd â'r galw a'r angen.

## 5. Nod y Gwasanaeth dros y flwyddyn nesaf.

5.1 Y nod am y flwyddyn nesaf yw adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y 12 mis diwethaf gan ddatblygu'r Gwasanaeth Symud a Thrin a rhyddhau capasiti'r Therapyddion Galwedigaethol i ddarparu Cefnogaeth ataliol i alluogi trigolion Gwynedd i gyflawni eu deilliannau personol. Byddwn yn parhau i weithio i leihau y rhestrau aros a darparu ymyraethau amserol o ansawdd uchel.